**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**        **EDC 15-01(p1)**

**Dyddiad:** 16 Tachwedd 2001
**Amser:**        9.30am-12.30pm
**Lleoliad:** Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam

**Teitl:** Bwrdd Croeso Cymru – Cynllun Corfforaethol 2002/2003 – 2004/2005

**Diben a Chamau i'w Cymryd**

1. I gyflwyno'r gweithgareddau a fwriedir gan Fwrdd Croeso Cymru yn **Atodiad A** ei Gynllun Corfforaethol 2002/2003 – 2004/2005 drafft i'r Pwyllgor (gweler hefyd wefan y Bwrdd Croeso)). http://www.wales-tourist-board.gov.uk/entry/cy/1/1/328

2. **Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynllun drafft a'r gweithgareddau a fwriedir gan y Bwrdd Croeso.** Yn **Atodiad B** ceir Arolwg Hanner Blwyddyn o'r hyn a wnaed gan y Bwrdd yn erbyn targedau strategol blwyddyn ariannol 2001-2002. O ystyried effeithiau clwy'r Traed a'r Genau ar dwristiaeth a'r digwyddiadau diweddar yn America ceir dau bapur byr yn amlinellu eu heffeithiau tebygol ar y diwydiant yn **Atodiad C** **a** **Atodiad D** ynghyd â chynlluniau Bwrdd Croeso Cymru i ymateb i'r problemau hyn.

3. Bydd Cadeirydd y Bwrdd, Phillip Evans, y Prif Weithredwr, Jonathan Jones a'r Cyfarwyddwr Ymchwil a Chynllunio Corfforaethol, Steve Webb yn mynychu'r cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau.

**Cydymffurfio**

4. Sefydlwyd y Bwrdd Croeso gan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 ac fe ehangwyd ei bwerau gan Ddeddf Twristiaeth (Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992. Rhoddwyd pwerau'r ddwy ddeddf i'r Cynulliad ac fe'u dirprwywyd i'r Gweinidog dros Ddatblygiad Economaidd. Nid oes materion yn codi ynghylch rheoleidd-dra nag uniondeb.

**Goblygiadau Ariannol**

5. Caiff cost gweithgareddau'r Bwrdd Croeso ei thynnu o'i gyllideb. Bydd unrhyw gyllid ar gyfer mentrau yn y dyfodol yn fater i'r Cynulliad ei ystyried yn ystod y Cylch Cynllunio Cyllidebau. Roedd y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd fis diwethaf yn cynnwys gwerth £20.536m o gynlluniau yn 2002-03 a £21.890m yn 2003-04. Mae'r Gweinidog dros Gyllid hefyd wedi cyhoeddi pecyn

o fesurau i'w hariannu gan gyllid o hyblygrwydd diwedd y flwyddyn; mae hwn yn cynnwys £2.2m ychwanegol i'r Bwrdd Croeso yn 2002-03. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol ac mae'n fodlon ag agwedd ariannol y Papur Pwyllgor Hwn.

**Gynllun Corfforaethol 2002/2003 – 2004/2005 drafft Bwrdd Croeso Cymru**

**Cyflwyniad**

6. Datblygwyd (**Atodiad A**) Cynllun Corfforaethol drafft Bwrdd Croeso Cymru gan y Bwrdd dros y misoedd diwethaf. Mae'n rhoi trosolwg o amcanion strategol a blaenoriaethau'r Bwrdd ac yn cymharu'i berfformiad â thargedau y llynedd. Ceir adroddiad perfformiad hanner blwyddyn 2001-2002 yn **Atodiad B.**

7. Wrth gwblhau'r Cynllun Corfforaethol, bydd gofyn i'r Bwrdd roi ystyriaeth i'r cynnydd o £2.2m i'w gyllideb yn 2002-03 a gyhoeddwyd yn ddiweddar; hefyd bydd angen adlewyrchu targedau a blaenoriaethau Llythyr Cylch Gwaith blynyddol y Cynulliad, a anfonir yn Rhagfyr 2001.

8. Mae'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad yn cynnwys £5,350 miliwn y flwyddyn ariannol hon i helpu Bwrdd Croeso i ymateb i effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar dwristiaeth. Mae'r Bwrdd wedi lansio nifer o fentrau i gynorthwyo busnesau ac mae'n parhau i adolygu ac addasu'i weithgareddau – adlewyrchir hyn yn y cynllun drafft. Mae'r Bwrdd hefyd yn y broses o asesu ac adolygu'i ymgyrchoedd marchnata yng Nghymru ac ar y cyfandir o ganlyniad i'r sefyllfa derfysgol (manylir ar effaith Clwy'r Traed a'r Genau yn **Atodiad C** a'r pryderon diweddar am derfysgaeth yn **Atodiad D.**)

9. Ar hyn o bryd, gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol drafft Bwrdd Croeso Cymru.

**ATODIAD B**

**BWRDD CROESO CYMRU ADRODDIAD PERFFORMIAD HANNER-BLWYDDYN 2001-2002**

1. **CYFLWYNIAD**

   Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn disgrifio perfformiad interim hanner-blwyddyn Bwrdd Croeso Cymru wrth gyflawni targedau strategol, mewnbwn i'r Fframwaith Datblygu Economaidd a chynnydd o gymharu â'r blaenoriaethau gweithredol eang a phenodol a

gynhwysir o fewn y Llythyr Gorchwyl.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn 30% o gyllid cymorth grant ychwanegol ar gyfer 2001/2002, a chaiff ei ddefnydd ei adlewyrchu yn y Cynllun Corfforaethol, gyda ffocws ar wella'r cynnyrch twristiaeth a chynyddu marchnata ledled y Deyrnas Gyfunol a thramor. Bu felly gynnydd yn y gwaelodlin cynhwysfawr o £15.436m i £20.236m. Yn ychwanegol, dyfarnwyd £5.35m i'r Bwrdd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'r Cynllun Adferiad Gwledig am y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddatblygu perthynas waith effeithlon gyda Gweinidog a swyddogion y Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn datblygu ffyrdd o ddangos a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cysylltiadau gwaith gyda'r Cynulliad drwy Strategaeth Gyfathrebu y Bwrdd, a gaiff ei ffurfioli yn fuan.

## 2. CYNNYDD O GYMHARU Â THARGEDAU STRATEGOL

**Mae'r tabl dilynol yn dangos union berfformiad hyd ddiwedd mis Medi 2001:-**

**WTB: Perfformiad Interim o gymharu â'r Targed 2001/2002**

| | **Targed** | **Perfformiad Interim** | **All-dro Amcanol** |
|---|---|---|---|
| A. **Buddsoddiad Cyfalaf** | 1:5.0 | 1:6.0 | 1:6.0 |
| i. Ysgogi (BCC: Cyfanswm Cost Prosiect) | £13.5 m | £8 miliwn | £13.5 miliwn |
| ii. Buddsoddiad sector preifat | | | |
| iii. Cyfanswm buddsoddiad | £25 m | £13.1 miliwn | £25 miliwn |
| iv) Swyddi (creu neu ddiogelu) | 500 (gros) | 330 | 500 |
| A. **Marchnata** | 30:1 | - | |
| i. Prif Ymgyrch Marchnata DG DaF | +5% i £113 m | - | 25:1 |
| ii. Cynnydd gwariant o farchnadoedd tramor sylfaenol* | | | +5% i £113 m |
| iii. DaF o farchnadoedd tramor sylfaenol | | | |
| iv. Cyfran flynyddol gwariant DG yng Nghymru (Hyd-Mehefin) | 10:1 | - | 8:1 |
| | 51% | - | 51% |
| **C. Terfyn Cost Rhedeg** | £4.7 miliwn | £2.3 miliwn | £4.7 miliwn |

* Seiliedig ar gyfartaledd treigl tair-blynedd

1. **SYLWEBAETH**

A. **Buddsoddiad Cyfalaf**

   i. **Ysgogiad**

   Ysgogiad yw'r mesur o fuddsoddiad a sicrhawyd gan gymorth Bwrdd Croeso Cymru. Mae'r gymhareb o 1:5.0 yn dangos i bob £1 o gymorth BCC ysgogi £5 ychwanegol o fuddsoddiad mewn twristiaeth. Ar y cam hanner-blwyddyn, mae cymhareb ysgogi'r Bwrdd o 1:6.0 yn rhwydd o flaen y targed blwyddyn lawn. Er mwyn cyflawni'r gymhareb ysgogi targed o 1:5.0, mae angen i ganran cefnogaeth y Bwrdd Croeso tuag at brosiectau cyfalaf unigol fod yn 20% ar gyfartaledd. Am chwe mis cyntaf 2001/2002, roedd cefnogaeth y Bwrdd yn nes at 17%.

   Mae'r Bwrdd yn rhagweld y cyflawnir y targed ysgogi blwyddyn derfynol.

   ii. **Buddsoddiad Sector Preifat/Cyfanswm Buddsoddiad a Grëwyd**

   Yn ystod chwe mis cyntaf 2001/2002, mae cymorth ariannol y Bwrdd Croeso wedi ysgogi cyfanswm o £13.1 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Daeth £8 miliwn (61%) o'r sector preifat.

   Rhagwelir y daw nifer o brosiectau sector preifat ymlaen yn ystod y cyfnod chwe mis terfynol. Mae'r Bwrdd yn disgwyl, felly, y cyflawnir ei darged buddsoddiad sector preifat blwyddyn lawn. Medrai'r nifer o fusnesau a gefnogir fod yn darged newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

   iii. **Creu/Diogelu Swyddi**

Cafodd cyfanswm o 330 swydd eu creu/diogelu gan gynllun cymorth ariannol y Bwrdd Croeso yn y cyfnod chwe mis hyd ddiwedd Medi 2001. Gyda disgwyl rhai prosiectau sector preifat graddfa-fawr yn y chwe mis dilynol, byddai'r Bwrdd yn rhagweld y cyflawnir y targed swyddi blwyddyn lawn o 500.

A. **Marchnata**

Mae bwlch amser cyn derbyn gwybodaeth perfformiad marchnata. Nid yw'r ffigurau

perfformiad ar gyfer blwyddyn marchnata 2001 ar gael eto. Bydd ymchwil trosiant yn y Deyrnas Gyfunol, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Iwerddon a'r Unol Daleithiau yn cychwyn yn fuan. Bydd hyn yn mesur dychweliad ar fuddsoddiad o gynlluniau marchnata a gynhaliwyd o Ionawr 2001 ymlaen.

Fodd bynnag, mae effaith clwy Traed a'r Genau wedi dylanwadu ar weithgaredd marchnata. Mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd gan yr ETC a thystiolaeth anecdotaidd arall a dderbyniwyd gan y diwydiant yng Nghymru yn awgrymu y bydd llawer o drigolion y Deyrnas Gyfunol yn llai tebygol o gymryd gwyliau tramor yn 2002. Y gred bresennol yw y bydd marchnata DG yn cynyddu, er y dylai Bwrdd Croeso Cymru gynnal ei bresenoldeb o fewn y prif farchnadoedd targed tramor, ac mae hyn yn cynnwys yr Unol Daleithiau, fel y bydd Cymru mewn sefyllfa fanteisiol unwaith y bydd y twristiaid hynny ar fin dychwelyd. Bydd y Bwrdd Croeso yn lansio ymgyrch newydd sylweddol a fydd yn dechrau yn Ionawr 2002. Dan thema ymgyrch "Cymru, y Wlad Fawr/ Wales, The Big Country", bydd yr hyrwyddiad yn lleoli Cymru fel y gyrchfan ddelfrydol ar gyfer prif wyliau a gwyliau byr. Defnyddir cronfeydd Ffordd i Ffyniant ac Amcan 1 i lansio hyrwyddiad prif dymor ar deledu yn rhanbarthau Granada, Central, HTV West a Meridian. Bydd hefyd sylw cryf ar deledu Sky ledled Prydain. Oherwydd cyfyngiadau cyllideb, mewn blynyddoedd diweddar ni fedrai Bwrdd Croeso Cymru fod ar deledu yn Ionawr/Chwefror. Dechreuai ein hymgyrch teledu yn y gwanwyn i ysgogi gwyliau byr. Bydd gweithgaredd mis Ionawr yn cystadlu'n uniongyrchol gyda chyrchfannau tramor ar gyfer prif wyliau. Byddwn wedyn yn dychwelyd i'r teledu, mae'n debyg yn Ebrill a Mai 2002.

i. **Dychweliad ar Fuddsoddiad Prif Ymgyrch Farchnata'r DG**

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gynyddol yn ceisio mesur effeithlonrwydd gwahanol weithgareddau marchnata er mwyn bod yn sail i ddyraniad cronfeydd yn ei farchnadoedd DG a thramor sylfaenol. Mae'r Bwrdd Croeso wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Cynulliad i ddiffinio targedau strategol y medrir eu mesur yn effeithlon ac y medrir dal perfformiad y Bwrdd Croeso i fod yn fwy uniongyrchol atebol arnynt. Mae prif ymgyrch farchnata'r DG yn gynllun marchnata uniongyrchol targedig iawn sy'n ceisio mwyhau ymholiadau llyfrynnau a dylanwadu ar benderfyniadau i ymweld â Chymru. Mae'r Bwrdd Croeso yn gwerthuso llwyddiant yr ymgyrch drwy fonitro'r nifer o ymholiadau am lyfrynnau a thrwy fesur ei effaith ar 'drosi' pobl i gymryd gwyliau yng Nghymru. Erbyn diwedd Medi 2001, derbyniwyd mwy na 92,000 o ymholiadau am lyfrynnau o gymharu â tharged o 250,000 am y flwyddyn gyfan, a disgwylir y caiff y gweddill eu derbyn rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002.

Os bydd y ffigurau ymateb llyfrynnau yn uwch na'r targed, mae'n werth nodi fod y gost o gael ymatebion yn ystod y digwyddiadau traed a'r genau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae felly'n debygol y bydd y dychweliad ar fuddsoddiad yn is.

Mae effaith clwy Traed a'r Genau wedi golygu fod angen diwygio'r targedau parthed marchnadoedd y Deyrnas Gyfunol a theimlir yn awr y medrid cyflawni Dychweliad ar Fuddsoddiad o 25:1.

ii. **Cynyddu Gwariant o Farchnadoedd Tramor Sylfaenol**

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn targedu'r cronfeydd sydd ar gael ar gyfer marchnata tramor i bum marchnad sylfaenol yr Unol Daleithiau, yr Almaen, Ffrainc, Gweriniaeth Iwerddon a'r Iseldiroedd.

Caiff y targed perfformiad hwn ei fesur drwy'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), arolwg sefydledig a weinyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y BTA a Bwrdd Croeso Cymru. Oherwydd bwlch amser o tua chwe mis mewn argaeledd data, fodd bynnag, ni fedrwn ar y cam interim adrodd cynnydd o gymharu â'r targed hwn. Caiff ymgyrchoedd marchnata'r dyfodol eu cynllunio i gynnwys elfen ymchwil.

Yn ystod 2000, y flwyddyn galendr ddiwethaf y mae ystadegau ar gael ar ei chyfer, mae ffigurau darpariaethol IPS yn nodi i wariant gan ymwelwyr tramor (gan eithrio rhai o Weriniaeth Iwerddon) i Gymru ostwng gan 0.75% o £269 miliwn i £267 miliwn. Mewn cymhariaeth, cynyddodd gwariant twristiaeth tramor gan 2% ar lefel y DG . (Dylid nodi fodd bynnag fod y ffigurau ar gyfer 1999 yn cynrychioli cynnydd o 53 y cant a briodolir yn rhannol i newid mewn methodoleg arolwg).

iii. **Dychweliad ar Fuddsoddiad o Farchnadoedd Tramor Sylfaenol**

Mae gwaith ar fin dechrau i sefydlu ffigurau Dychweliad ar Fuddsoddiad (ROI) ar gyfer ein marchnadoedd tramor sylfaenol. Bydd y dadansoddiad hwn yn edrych ar y prif ymgyrchoedd partneriaeth gyda'r BTA, cynlluniau marchnata uniongyrchol eraill, a mesur rhaglenni arddangos.

Mae effeithiau clwy Traed a'r Genau yn golygu fod angen diwygio'r targedau parched marchnadoedd tramor a theimlir yn awr y medrid cyflawni ROI o 8:1.

iv. **Cyfran o Wariant Twristiaeth y Deyrnas Gyfunol (Hydref - Mehefin)**

Bwriedir i'r targed hyn roi ryw fesur o allu'r Bwrdd Croeso i ymestyn buddion twristiaeth i gyfnodau y tu allan i'r brig trydydd chwarter. Caiff y targed ei fonitro drwy gyfeirio at ddata a gyrchwyd o Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Gyfunol. Bydd ffigurau Arolwg Twristiaeth y DG, a fydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cyfeirio at 2000. Erys targed 2001/2002 o 51% yn her sylweddol ar y cam interim hwn er y bydd y Bwrdd Croeso yn cyllido ymgyrchoedd

marchnata uniongyrchol mwy helaeth yn yr Hydref a'r Gwanwyn i ysgogi busnes ychwanegol yn ystod y cyfnod "ysgwydd" hwn. Cafodd argyfwng clwy Traed a'r Genau drwy gydol 2001 effaith andwyol ar dwristiaeth ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae nifer archebion wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gall adferiad araf ei gwneud yn anodd i gyflawni'r targed strategol o 51% yn 2001/2002.

1. **FFRAMWAITH AR GYFER DATBLYGU ECONOMAIDD**

### i) Themâu Datblygiadol

Mae themâu'r Cynulliad Cenedlaethol o ddatblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhedeg drwy bob agwedd o bolisi'r Bwrdd Croeso ac maent yn parhau i gael eu datblygu. Mae'r Bwrdd yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal parthed datblygu cynaliadwy. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

### ii) Ymgynghoriad Economaidd

Mae'r Bwrdd Croeso wedi cymryd rhan ym mhroses ymgynghori NEDS (fydd yn cynnwys targedau ar gyfer cynlluniau'r Bwrdd yn y dyfodol) ac yn gweithio tuag at dargedau'r diwydiant twristiaeth a nodir yn gwellcymru.com a chytundeb Partneriaeth "Rhoi Cymru'n Gyntaf". Mae'r Bwrdd Croeso hefyd wedi cyfrannu at adolygiad y Cynulliad o Wasanaethau Cefnogaeth a Datblygu Busnes - y cytunwyd arnynt oll mewn Cyfarfodydd Bwrdd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

### iii) Cyfleoedd Cyllid

Mae argaeledd cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi cyfle unigryw i ddyrannu cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer twristiaeth yn ystod y cyfnod 2000-2006. Bydd yn bwysig defnyddio'r cronfeydd ychwanegol hyn yn ofalus o fewn fframwaith strategol clir fel y caiff cyfraniad twristiaeth i GDP Cymru ei wella. Mae £2m o Gefnogaeth Buddsoddiad eisoes wedi ei ddyrannu i gwmnïau bach a chanolig.

Bydd y Bwrdd Croeso yn parhau i chwarae rhan allweddol ym Mwrdd Rheolaeth y Bartneriaeth i oruchwylio gweithrediad cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer twristiaeth yn ardal Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Y Bwrdd Croeso fydd yn cadeirio Bwrdd Rheolaeth y Bartneriaeth a bydd yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i sicrhau y caiff cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd eu defnyddio'n ddoeth i wella sefyllfa gystadleuol twristiaeth yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd Croeso yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd arian cyfatebol a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol, sydd yn gronfeydd Ffordd i Ffyniant gan bennaf.

## 2. BLAENORIAETHAU GWEITHREDU EANG

### i) Hyrwyddo Rhyngwladol

Gan ystyried y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (NEDS) bob amser, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi gweithio'n agos eleni gydag Awdurdod Datblygu Cymru a Masnach Cymru Ryngwladol gan fanteisio'n llawn ar deithiau masnach a mewnfuddsoddiad ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo lle'n briodol. Yn ystod 2001 cymerodd y Bwrdd Croeso ran mewn teithiau masnach i Galiffornia a De Affrica. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Fwyd y WDA a oedd yn bartneriaid i ni mewn tair ffair wyliau Ewropeaidd bwysig yn Utrecht, Rennes a Brwsel. Sicrhawyd cydlyniaeth agos drwy'r Grwp Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'r trafodaethau am gyd-ddefnydd swyddfeydd tramor yn parhau.

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r BTA i gynyddu adnoddau marchnata a gweithgareddau ym marchnadoedd tramor sylfaenol Cymru.Mae blaenoriaethau Traed a'r Genau wedi effeithio ar gynllunio tymor hwy eleni. Nid oes unrhyw arwydd eto o gyllid a thargedau penodol i Gymru o fewn dyraniad y BTA.

### ii) Datblygu Ansawdd

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn ystyried y cwmpas ar gyfer amodau ansawdd a mesurau heblaw'r amodau hyfforddiant a marchnata sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau grant cyfalaf priodol, yn cynnwys isafswm graddiad ansawdd seren y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd Croeso yn parhau i ddefnyddio ei gynlluniau cymorth ariannol integredig i hyrwyddo a gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth i sicrhau prosiectau cynaliadwy o'r ansawdd uchaf ym mhob sector twristiaeth yng Nghymru. Mae ansawdd yn thema hanfodol o *Cyflawni ein Potensial* ac mae'r Bwrdd Croeso yn cydnabod, wrth i dwristiaeth ddod yn fwy cystadleuol, ei bod yn bwysicach i sicrhau fod Cymru'n darparu'r gymysgedd iawn ac ansawdd cyfleusterau a chyflwyniad gwasanaeth i ateb anghenion y farchnad. Caiff Cynlluniau Graddio Ansawdd y Bwrdd Croeso eu hadolygu mewn ymgynghoriad gyda'r diwydiant a defnyddwyr i sicrhau eu bod yn ateb anghenion esblygol y farchnad.

### iii) Is-strwythur

Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi gweithio'n agos gyda'i bartneriaid mewn awdurdodau lleol. Mae'r Bwrdd Croeso yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion a nodir yng Nghynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn dilyn egwyddorion y Cynulliad ar bartneriaethau - yn arbennig adrannau 113 i 115 Deddf Llywodraeth Cymru

1998, i ymgynghori â llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a'r gymuned fusnes ar faterion yn effeithio ar eu diddordebau. Mae Strategaeth Gyfathrebu Bwrdd Croeso Cymru yn cael ei datblygu.

## 3. BLAENORIAETHAU GWEITHREDOL PENODOL

### i. Cynnydd Strategol

Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi parhau i weithredu Cyflawni ein Potensial, strategaeth twristiaeth Cymru. Fel yr asiantaeth arweiniol strategol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, bydd gan y Bwrdd Croeso rôl allweddol wrth sicrhau y medrir gweithredu cynllun gweithredu strategol Cyflawni ein Potensial i amserlen. Mae Cyflawni ein Potensial yn awyddus i annog y diwydiant i gydweithio i reoli newid yn effeithlon yn ystod cyfnod o newid economaidd a chymdeithasol sylweddol yng Nghymru. Adeiladwyd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2000/2001 ar y 49 pwynt gweithredu yn ystod 2001/2002.

Mae'r pedwar Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol bellach yn eu lle ac mae'r partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol cysgodol wrthi'n datblygu eu strwythurau cyfansoddiadol a gweithredol. Cynllunio busnes a strategaethau twristiaeth ranbarthol yw'r blaenoriaethau dros y misoedd nesaf.

### ii. Cynnydd Marchnata

Mae'r System Rheoli Cyrchfan (DMS) yn cadw ar yr amserlen a fwriadwyd, gyda chynllun peilot a phrofi yn y diwydiant eisoes yn mynd rhagddynt.

Targedir marchnadoedd allweddol tramor ac yn y Deyrnas Gyfunol, yn neilltuol ar gyfer marchnadoedd niche seiclo a theithio mewn ceir yn mynd yn ôl y cynllun.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda grwp llywio diwydiant, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi derbyn cynigion am ymarferoldeb biwrô confensiwn i Gymru. Mae Bwrdd Croeso Cymru a grwp llywio yn edrych ar y cynigion ar hyn o bryd.

Rhoddwyd crynodeb o hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru drwy "Cymru'n Creu" a gwaith ehangach yn y Ddrafft Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol a gytunwyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2001 sydd allan ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y fframwaith strategol ar gyfer Strategaeth Ddigwyddiadau yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Gall y cynllun gweithredu yn awr fynd rhagddo gyda'r adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â chronfeydd Amcan 1 a Ffordd i Ffyniant.

Mae'r Bwrdd Croeso yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, yn cynnwys y BTA, i baratoi calendr digwyddiadau blynyddol mwy helaeth. Mae'r Bwrdd yn rhoi cefnogaeth ariannol i rali Network Q a roedd hefyd yn rhan o dîm partneriaeth a sicrhaodd y Cwpan Ryder i Gymru a bydd yn parhau i roi cyngor i'r Cynulliad ar ddefnydd cronfeydd yn y cyswllt hwn.

iii. **Cofrestriad Statudol**

Cynhaliwyd dwy gynhadledd fasnach ym mis Mehefin, a gyda'r ymgynghoriad wedi ei gwblhau mae adroddiad i'r Cynulliad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried cost ac oblygiadau gweinyddol pob sector llety ac yn argymell dewis opsiwn i Gymru.

**iv) Twristiaeth y Cymoedd**

Mae Bwrdd Croeso Cymru, gyda phartneriaid, wedi datblygu cynigion ar gyfer cynllun twristiaeth y cymoedd. Cwblhawyd y Cynllun Gweithredu. Mae partneriaid yn ystyried gweithrediad ar hyn o bryd.

1. **TUEDDIADAU MEWN TARGEDAU BLYNYDDOL**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gosod targedau blynyddol ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru. Yn gynyddol mewn blynyddoedd diweddar cafodd y targedau hyn eu diffinio'n benodol i gyfeirio at allbynnau'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau rhaglen y Bwrdd Croeso. Mae'r tabl dilynol yn cynnwys manylion am dargedau 2001/2002 ac yn crynhoi cynnydd wrth gyflawni'r targedau hyn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2000/2001.

**Targedau blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000/2001, 2001/2002**

| | ***MESUR PERFFORMIAD*** | **2000/2001 TARGED** | **2000/2001 ALLDRO** | **2001/2002 TARGED** |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Buddsoddiad Sector Preifat a grëwyd** | £12m | £11.5m | £13.5m |
| **2** | **Cyfanswm buddsoddiad a grëwyd** | £23m | £25m | £25m |
| **3** | **Cymhareb ysgogiad grant Bwrdd Croeso Cymru: cyfanswm cost prosiect** | 1:5.0 | 1:6.6 | 1:5.0 |
| **4** | **Nifer y swyddi a grëwyd/diogelwyd** | 400 | 477 | 500 |
| **5** | **Cyfran flynyddol gwariant y DG yng Nghymru (Hyd-Mehefin)** | 51% | N/A | 51% |
| **6** | **Terfyn cost rhedeg** | £4.457m | £4.344m | £4.700m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7** | **Dychweliad ar Fuddsoddiad ymgyrch farchnata domestig (DG) Bwrdd Croeso Cymru** | 30:1 | 30:1 | 30:1 |
| **8** | **Gwariant cynyddol o farchnadoedd tramor sylfaenol** | +5% | N/A | +5% |

2. **ARALL**

Mae Bwrdd Croeso Cymru wrthi'n cyd-drefnu'r broses gynllunio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Croeso yn edrych ar ffyrdd o gynyddu darpariaeth a chyflwyniad ymchwil i'r diwydiant. Mae datblygiad polisi yn seiliedig ar dystiolaeth wedi arwain at dargedu adnoddau ar weithgaredd a marchnadoedd y dangoswyd fod ganddynt y dychweliadau gorau i Gymru. Cynhwysir hyn yn Strategaeth Marchnata y Bwrdd Croeso. Dechreuodd Adolygiad Pum-mlynedd y Bwrdd Croeso ym Medi 2001, gyda Jonathan Price o'r Cynulliad Cenedlaethol (Adran Cyngor Economaidd) yn dilyn y Cylch Gorchwyl a gytunwyd.

**ATODIAD C**

**EFFAITH CLWY TRAED A'R GENAU AR DWRISTIAETH**

**1. Cyflwyniad**

Mae twristiaeth yn gydran bwysig o economi Cymru. Mewn blynyddoedd diweddar, bu'r gwariant blynyddol o ymweliadau dros nos ac ymweliadau dydd yn fwy na £2 biliwn - tua 7% o GDP Cymru. Mae cyfraniad cymharol twristiaeth i'r economi hyd yn oed yn uwch mewn llawer o ardaloedd arfordirol a gwledig. Fodd bynnag, roedd nifer o ffactorau allanol yn debyg o effeithio ar berfformiad twristiaeth yn ystod 2001 hyd yn oed cyn ystyried achosion clwy traed a'r genau. Yn gyntaf, roedd nerth y bunt o gymharu â'r Euro yn debygol o fod yn ffactor oedd yn parhau i lesteirio twf o farchnadoedd Ewropeaidd. Roedd Americanwyr hefyd yn gwybod fod nerth cynyddol y ddoler o gymharu â'r Euro yn golygu fod Ewrop yn rhoi gwerth gwell na'r Deyrnas Gyfunol. Dengys ymchwil ddiweddar fod cysylltiad uniongyrchol rhwng gwerth y bunt a derbyniadau twristiaeth ryngwladol h.y. mae pob 1% o gynnydd yng ngwerth allanol y bunt yn achosi gostyngiad o tua 1.3% yn nerbyniadau twristiaeth rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol. Bydd nerth cymharol y bunt hefyd wedi cynyddu'r tueddiad i drigolion y Deyrnas Gyfunol i fynd dramor ar eu gwyliau yn hytrach nag aros yn y DG.

Yn ail, roedd pris cymharol uchel petrol a'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r blocadau petrol yn y Deyrnas Gyfunol yn llesteirio twf o rai marchnadoedd rhyngwladol allweddol. Yn ychwanegol at hyn roedd arwyddion cryf fod economi'r Unol Daleithiau yn arafu a bod twf mewn gwariant defnyddwyr ledled Ewrop yn parhau'n farwaidd. Er gwaethaf y ffactorau allanol cyfyngol hyn, cyn yr achosion o glwy traed a'r genau roedd Awdurdod Twristiaeth Prydain (BTA) yn rhagweld y byddai gwariant gan ymwelwyr tramor yn codi gan 2% ym Mhrydain yn ystod 2001 h.y. o

£12.8 biliwn i ychydig dros £13 biliwn. Erbyn diwedd mis Mai 2001, fodd bynnag, roedd BTA wedi diwygio'r rhagolygon optimistaidd hyn ac yn amcangyfrif y byddai derbyniadau twristiaeth mewnddyfod 10% a 20% yn brin o'r ffigur amcanol hwn fel canlyniad i glwy traed a’r genau. Mewn termau ariannol roedd hyn yn gyfwerth â chwymp mewn refeniw o rhwng £1.5 a £2.5 biliwn - y golled yn dod yn bennaf o rai o farchnadoedd twristiaeth mewn-ddyfod mwyaf Prydain, yn arbennig yr Unol Daleithiau, Ffrainc, Yr Almaen a'r Iseldiroedd.

Ni ddisgwylid i alw domestig gan drigolion y Deyrnas Gyfunol dyfu'n sylweddol yn ystod 2001 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Prif newid strwythurol blynyddoedd diweddar fu twf gwyliau byr yng Nghymru a gostyngiad araf a chyson yn y farchnad gwyliau hir tymor brig traddodiadol. Rhagwelwyd y byddai'r tueddiadau cyffredinol hyn yn parhau yn 2001, mewn sefyllfa o bunt gref a gwariant defnyddwyr yn aros yn yr unfan.

**2. Clwy Traed a'r Genau yng Nghymru**

Cyhoeddwyd yr achos cyntaf o glwy traed a'r genau yn y Deyrnas Gyfunol ddiwedd mis Chwefror. Roedd yr effaith uniongyrchol a dilynol ar fusnesau twristiaeth gwledig yn ddifrifol a phellgyrhaeddol. Er na theimlwyd effaith clwy traed a'r genau yn gyfartal ledled Cymru, a'i bod yn dal yn rhy gynnar i fod yn fanwl yn am berfformiad terfynol twristiaeth yng Nghymru yn 2001, yr arwyddion clir yw y bydd clwy traed a'r genau wedi peri lefelau sylweddol is o wariant twristiaeth, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae rhai busnesau yn parhau i adrodd fod eu hincwm twristiaeth wedi gostwng gan unrhyw beth hyd at 75% o gymharu â blwyddyn arferol. Dangosodd ymchwil fod trosiant ledled Cymru wedi gostwng gan 22% yn ystod cyfnod y Pasg a dywedodd dau allan o bob tri busnes a ymatebodd i arolwg a gynhaliwyd yn ystod mis Mai fod blaen-archebion ar gyfer gweddill 2001 wedi gostwng gan dros 60% ar gyfartaledd. Er fod arwyddion da fod hyder defnyddwyr yng nghefn gwlad yn gwella, mae clwy traed a'r genau yn debyg o adael ôl tymor hir ar economi gwledig Cymru. Ar sail profiad blaenorol, mae'n debyg mai'r farchnad ddomestig (DG) fydd yn adfer gyntaf. Mae hyn yn newyddion cymharol dda i Gymru oherwydd fod o leiaf 80% o wariant gan ymwelwyr tramor yn deillio o farchnad graidd y DG. Bydd yn bwysig i dargedu'r marchnadoedd teyrngar hyn yn hyderus ac yn effeithlon i adennill eu hymddiriedaeth ac i ddenu ymwelwyr newydd ac ymwelwyr blaenorol i Gymru yn ystod 2002.

**I grynhoi, mae'r Bwrdd Croeso yn amcangyfrif fod gwariant twristiaeth yng Nghymru yn ystod chwe mis cyntaf 2001 wedi gostwng gan -15%, cyfwerth â chyfanswm colledion o £182 miliwn (gweler Atodiad 1).**

**Fel canlyniad uniongyrchol i effaith hirhoedlog clwy traed a'r genau a digwyddiadau trychinebus 11 Medi 2001, mae'r Bwrdd Croeso yn amcangyfrif colledion pellach o £100 miliwn o leiaf erbyn diwedd 2001 gan roi cyfanswm o fwy na £280 miliwn erbyn diwedd 2001.**

Un canlyniad uniongyrchol o argyfwng clwy traed a'r genau yw ei fod wedi dangos cyfraniad pwysig twristiaeth i'r llywodraeth, y gymuned fusnes a'r cyhoedd i economïau lleol. Mewn rhai ardaloedd gwledig, twristiaeth yw'r prif gyflogydd ac mae'n bwysig cydnabod rôl integredig twristiaeth mewn unrhyw benderfyniadau ar ddyfodol yr economi gwledig.

## 3. Ymateb Bwrdd Croeso Cymru i Glwy Traed a'r Genau

Ymgynghorodd Bwrdd Croeso Cymru yn helaeth gyda'r diwydiant i ddeall eu problemau uniongyrchol ac i ddynodi'r mesurau priodol sydd angen eu rhoi ar waith i helpu adferiad yr economi gwledig. Gyda chefnogaeth adnoddau ychwanegol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Bwrdd Croeso wedi medru cyflwyno amrediad o weithgareddau a gynlluniwyd i atal effaith clwy traed a'r genau yng Nghymru. Cafodd y mesurau hyn eu cyfathrebu i'r diwydiant drwy gylchlythyrau rheolaidd gan y Bwrdd Croeso a thrwy'r cyfryngau. Bydd y Bwrdd Croeso yn dyrannu cyfanswm o £4.55 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod 2001/2002 i gefnogi'r diwydiant twristiaeth wrth iddo geisio brwydro'n ôl ac a sicrhau adferiad yn dilyn clwy traed a'r genau. Cynllunnir cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer y tymor hwy i gryfhau ansawdd y cynnyrch twristiaeth mewn ardaloedd gwledig.

## 4. Crynodeb o Weithgareddau Ychwanegol Bwrdd Croeso Cymru

### A Cam Cyntaf

Ar 29 Mawrth 2001 cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol £1.15 miliwn o gyllid ychwanegol i Fwrdd Croeso Cymru. Roedd y cyllid dechreuol uniongyrchol hwn yn cynnwys £1.5 miliwn o adnoddau presennol y Bwrdd Croeso ac fe'u gwariwyd ar farchnata yn y cyfnod cyn y Pasg a'r ddau benwythnos Gwyl y Banc dilynol. Y prif amcan marchnata ar y cam hwn oedd:

*"Perswadio ymwelwyr o'r Deyrnas Gyfunol fod Cymru ar agor ar gyfer y Pasg a thu hwnt ac i archebu gwyliau yma."*

Roedd ymgyrch integredig o weithgareddau yn cynnwys:-

- ymgyrch hysbysebu radio ar orsafoedd rhanbarthol mewn marchnadoedd allweddol;
- erthyglau hysbysebu mewn 25 o gyhoeddiadau'r wasg ranbarthol a chenedlaethol;
- hysbysebu ar Teletestun;
- gohebu uniongyrchol i 100,000 o ymholwyr y flwyddyn bresennol ac e-bost i 30,000 o ymholwyr eraill gyda negeseuon yn rhoi sicrwydd a chanllawiau teithio;
- ymgyrch gysylltiadau cyhoeddus ragweithiol;
- ehangu'r ymgyrch 'Mantais' yn rhoi cymhorthdal ar gyfer cyfleoedd hysbysebu i'r diwydiant

- ymgyrchoedd poster awyr agored mewn marchnadoedd ffynhonnell allweddol
- dosbarthu 3 biliwn o daflenni mewn cylchgronau/papurau newydd
- ymgyrch hysbysebu 'Today in Wales' - amcangyfrifir i 16 miliwn o wylwyr ym marchnadoedd targed allweddol Cymru weld yr hysbysebion;
- gwybodaeth gwefan benodol yn gysylltiedig ag ymgyrch 'Today in Wales';
- rhoddodd gwefan y Bwrdd Croeso
- www.visitwales.com

- wybodaeth gyfredol ar atyniadau oedd ar agor a chyngor i ymwelwyr - yn ystod mis Mai roedd y safle yn derbyn ar 185,000 o ymweliadau y dydd ar gyfartaledd, cynnydd o 85% ar y flwyddyn flaenorol

- Cefnogodd y Bwrdd Croeso 11 o gyd-ymgyrchoedd marchnata lleol, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny a gafodd eu taro waethaf gan glwy traed a'r genau.

**B Cynllun Adferiad Gwledig**

Lansiodd y Cynulliad y Cynllun Adferiad Gwledig ar 26 Gorffennaf, a chadarnhaodd fod y mesurau allweddol yn y cynllun yn cynnwys £4.2 miliwn bellach o gyllid ar unwaith ar gyfer marchnata a datblygu busnesau twristiaeth a £5 miliwn i gefnogi prosiectau twristiaeth, hamdden ac amgylcheddol integredig y gronfa hon i gael ei gweinyddu ar y cyd gan Fwrdd Croeso Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae dyraniad cymorth grant presennol y Bwrdd Croeso wedi ategu'r cronfeydd ychwanegol hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi'r rhaglen olynol o weithgareddau:

**Cynllun Gweithgaredd Bwrdd Croeso Cymru - Cynllun Adferiad Gwledig**

| ***Nodyn*** | **Dyraniad y Cynulliad Cenedlaethol** | **2001-02 Alldro Amcanol** | **Dyraniad 2002-03 Ymlaen** |
|---|---|---|---|
| ***Cronfa Adfer Marchnata – ADFER*** Galluogi busnesau twristiaeth i wneud cais am gyllid adfer ar gyfer marchnata | £1m | £1m | - |
| ***Cynllun Mantais Marchnata*** Cynllun marchnata yn rhoi cymhorthdal ar gyfer gofod hysbysebu mewn papurau newydd i fusnesau twristiaeth | £200k | £200k | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Cronfa Marchnata Taro'n Ôl Ardaloedd***<br>Ar gael i grwpiau Marchnata Ardal ar gyfer cyd-weithgaredd marchnata, arian cyfatebol ar gyfer ymgyrchoedd ychwanegol | £500k | £500k | - |
| **i** | ***Cynllun Marchnata Gwledig***<br>Ymgyrch wledig unwaith-yn-unig ar gyfer Gwanwyn 2002 yn gweithio gyda phartneriaid allweddol e.e. Parciau Cenedlaethol | £500k | £500k | - |
| **ii** | ***Cronfa Datblygu Gwledig***<br>Cronfa datblygu integredig yn seiliedig ar gynnyrch i gynnal a gweithredu strategaethau datblygu cynnyrch. Rhagwelwyd hyn fel strategaeth tymor-canol/tymor-hir. | £2m | £400k | - |
| **iii** | ***Cronfa Adfer Buddsoddiad – ReAct***<br>Ar gael i fusnesau twristiaeth i gefnogi anghenion ailfuddsoddi uniongyrchol i gynnal ansawdd | - | £1m | - |
| **iv** | ***Gostwng Ffi Graddio***<br>Mae'r Bwrdd Croeso yn rhoi gostyngiad o 50% ar ffioedd graddio | - | - | - |
| | ***Prosiectau Integredig Twristiaeth, Hamdden ac Amgylcheddol***<br>Cynllun ar y cyd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu gwledig | £5m | - | £5m |
| **v** | **CYFANSWM** | **9,200** | **3,600** | **5,000** |

**<u>Nodiadau</u>**

i Bwriedir cynnal yr Ymgyrch Marchnata Gwledig yn y Gwanwyn, gyda £500k wedi ei ymrwymo, er heb ei wario hyd yma..

ii Bwriad y Cynllun Datblygu Gwledig oedd cynorthwyo datblygu cynnyrch dros fwy na un flwyddyn. Bydd y gronfa yn cynorthwyo'r Bwrdd Croeso wrth ddechrau gwaith yn gysylltiedig gyda'r cyd-gynllun £5m gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Twristiaeth Integredig ac ati)

iii Mae cymeradwyaethau a dyraniadau ReAct yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, er y bydd bwlch amser cyn y gwerir yr arian.

iv Ni wnaed dyraniad ar gyfer gostyngiadau ffioedd graddio, er y bydd BCC yn cyllido £149k i gynorthwyo gyda gostyngiad o 50% mewn ffioedd graddio y flwyddyn nesaf.

v Erys £600k yn 200102 i'w ailddyrannu i un neu fwy o'r cynlluniau uchod, o gael hyblygrwydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**ATODIAD 1**

**PERFFORMIAD TWRISTIAETH 2000/2001**

**A. GWARIANT TWRISTIAETH I GYMRU 2000**

| | £ (miliwn) |
|---|---|
| Gwariant DG | 1.654 |
| Gwariant Tramor | 267 |
| Gwariant Ymweliadau Dydd | 775 |
| | 2.696 |

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Gyfunol*

*Arolwg Teithwyr Rhyngwladol)*

*Arolwg Ymweliadau Diwrnod Hamdden (amcangyfrifon))*

**B. TRIPIAU/GWARIANT DG I GYMRU: Ion - Mehefin 2001**

| | Tripiau 2000 (miliwn) | Tripiau 2001 (miliwn) | Newid 2001 v 2000 % | Gwariant 2000 (£miliwn) | Gwariant 2001 (£miliwn) | Newid 2001 v 2000 % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 0.6 | 0.5 | -17% | 67.7 | 58.4 | -13% |
| Chwefror | 0.7 | 0.5 | -28% | 70.5 | 59.3 | -16% |
| Mawrth | 1.0 | 0.6 | -40% | 110.2 | 73.6 | -33% |
| Ebrill | 1.4 | 0.8 | -43% | 151.7 | 105.9 | -30% |
| Mai | 1.4 | 1.2 | -14% | 164.0 | 178.5 | +9% |
| Mehefin | 1.1 | 1.2 | +9% | 157.0 | 142.2 | -9% |
| ***Ionawr - Mehefin*** | **6.2** | **4.8** | **-22%** | **721.1** | **617.9** | **-14%** |

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Gyfunol*

**C. YMWELIADAU UN NOSON NEU FWY (DG + TRAMOR) & YMWELIADAU DYDD**

Cyfanswm Amcanol Gwariant a Gollwyd yng Nghymru Ionawr i Fehefin 2001 (Ymweliadau dros nos ac ymweliadau dydd)

| | Ion - Mehefin 2000 Gwariant (£miliwn) | Ion - Mehefin 2001 Gwariant (£miliwn) | Colled hanner cyntaf (£miliwn) | Colled hanner cyntaf (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (DG) | 721.1 | 617.9 | 103.2 | -14% |
| Ymweliadau dros nos (Tramor) | 102.0 | 76.5 | 25.5 | -25% |
| Ymweliadau dydd | 387.5 | 333.5 | 54.0 | -14% |
| CYFANSWM | 1,210.6 | 1,027.9 | 182.7 | -15% |

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Gyfunol*

*Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (amcangyfrifon)*

*Arolwg Ymweliadau Diwrnod Hamdden (amcangyfrifon)*

## ATODIAD D

## EFFAITH DIGWYDDIADAU 11 MEDI 2001 AR DWRISTIAETH I GYMRU

### 1. **Cefndir**

Mae'n ddi-os y bydd gan yr ymosodiadau terfysgol ar 11 Medi effaith tymor byr a pharhaol sylweddol ar alw twristiaeth yng Nghymru. Yn ychwanegol bydd y "rhyfel yn erbyn terfysgaeth" a ddechreuodd o ddifrif ar 7 Hydref hefyd yn dylanwadu ar agweddau, hyder defnyddwyr a chynlluniau i deithio yn y dyfodol agos. Aiff y papur hwn ati i geisio diffinio effeithiau posibl tymor byr a thymor canol y digwyddiadau sylweddol hyn sydd ag effeithiau byd-eang. Bydd hefyd yn asesu i ba raddau y medrir lleddfu'r risgiau i Gymru a sut y medrai'r Bwrdd Croeso addasu ei weithgareddau a negeseuon arfaethedig.

### 2. Effeithiau tymor byr

Yn y tymor byr (hyd ddiwedd Rhagfyr 2001) bydd teithio rhyngwladol yn gostwng yn sylweddol. Bydd ofn hedfan, risg dial pellach a dymuniad, yn arbennig ymhlith Americanwyr, i fod gyda'u teulu a'u ceraint, yn arwain at ohirio neu ganslo ymweliadau. Bydd yr effaith yn amrywio o wlad i wlad. Mae cyfarfodydd diweddar gyda'r BTA yn awgrymu fod y gostyngiadau dilynol yn debygol hyd ddiwedd 2001.

Unol Daleithiau – 40 i 60 y cant

Canada – 30 i 40 y cant
Awstralasia – 20 i 25 y cant
Ewrop - 10 i 15 y cant

Rhaid pwysleisio mai dim ond amcangyfrif yw ffigurau o'r fath ar y cam hwn. Bydd yr effaith tymor byr yn amrywio o wlad i wlad. Ychydig a fedrir ei wneud mewn termau marchnata i leddfu’r gostyngiad tymor byr dechreuol hyn yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r chwarter olaf yn un cymharol dawel am ymwelwyr rhyngwladol. Mae'r Bwrdd Croeso yn amcangyfrif y bydd yr effaith ariannol o Gymru tua £20 i £30 miliwn.

Y mae'n bosibl, wrth gwrs, y gall pobl ym Mhrydain oedd wedi bwriadu teithio'n rhyngwladol, yn neilltuol wyliau byr mewn dinasoedd, hefyd yn penderfynu peidio mynd. Bydd rhai'n cymryd tripiau yn y Deyrnas Gyfunol yn lle a bydd Cymru'n manteisio o hyn.

Mae'r BTA yn amcangyfrif y gall diwydiant twristiaeth Prydain golli tua £2.5 miliwn eleni oherwydd effeithiau cyfun clwy traed a'r genau a'r ymosodiadau terfysgol diweddar yn yr Unol Daleithiau. Mae gwariant gan ymwelwyr tramor i Brydain - a ragwelwyd i ddechrau ar dros £13 biliwn yn awr yn debygol o fod tua £10.8 biliwn, gostyngiad o bron 20%.

**3. Effeithiau tymor-canol**

Yn y tymor canol (a ddiffinnir fel 2002) bydd yr effeithiau yn dibynnu i raddau helaeth ar natur yr ymateb dan arweiniad yr Unol Daleithiau i'r erchyllterau a dial dilynol dan derfysgwyr. Gan ddefnyddio effaith Rhyfel y Gwlff fel meincnod, mae'r BTA yn amcangyfrif y gostyngiadau posibl dilynol yn 2002.

Unol Daleithiau – 20 i 25 y cant
Canada – 15 i 20 y cant
Awstralasia – 10 i 15 y cant
Asia – 15 i 20 y cant
Ewrop – 5 y cant

Unwaith eto, bydd nifer o amrywion a ffactorau anfesuradwy yn effeithio ar yr amcangyfrifon hyn. Teithwyr o Ogledd America sydd fwyaf tebygol o ohirio cynlluniau am deithio rhyngwladol ac aros o fewn yr Unol Daleithiau a Chanada. Yng nghyswllt Ewrop, fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn debygol o fod yn llai dramatig er fod ffactorau eraill megis nerth y bunt ac atgofion am glwy traed a'r genau hefyd yn debygol o ostwng y galw. Ar y cam hwn ymddengys yn rhesymol i dybio gostyngiad cynhwysfawr o 15 y cant mewn twristiaeth ryngwladol i Gymru yn ystod 2002 - colled o £40m i economi Cymru.

Mae hefyd yn deg tybio, fodd bynnag, y gall pobl ym Mhrydain fod â llai o awydd i gymryd gwyliau dramor yn arbennig yng Ngogledd America ac Asia yn ystod 2002. Bydd felly gyfle i

gynhyrchu twf o farchnad y Deyrnas Gyfunol yn 2002.

**4. Effeithiau tymor hir**

Mae rhagweld yr effeithiau tymor hir (ar ôl 2002) yn sbeciannol iawn. Ymddengys yn debygol, fodd bynnag, nad yw'r twf yr arferid a ragwelid mewn teithio awyr rhyngwladol dros y pum mlynedd nesaf yn digwydd i'r lefel a ddisgwylid. Mae cwmnïau awyrennau'n gostwng darpariaeth ac ynghyd â chostau ychwanegol ac yswiriant, bydd llai o deithiau cost isel fydd yn lleihau galw. Yn ychwanegol, bydd yn cymryd amser i oresgyn yr ymdeimlad cynyddol o ofn ac ansicrwydd.

**5. Addasu Negeseuon**

Dengys ymchwil flaenorol fod llawer o ymwelwyr a darpar ymwelwyr yn ystyried Cymru fel cyrchfan ddiogel, gydag ymdeimlad cryf o gymuned ac yn cynnig gwerthoedd traddodiadol. Mae'r canfyddiadau cadarnhaol hyn ynghyd â'r ffaith yr ystyrir bod Cymru'n cynnig dihangfa naturiol o bwysau bywyd modern yn cynnig cyfle i leoli Cymru fel hafan i ymwelwyr o'r Deyrnas Gyfunol a hefyd ymwelwyr tramor. Mae'n amlwg fod angen peth sensitifrwydd wrth wneud hyn ond byddwn yn edrych ar greu negeseuon addas. Credwn y bydd teithwyr yn ystyried bod gwyliau teithio mewn car yn cynnig amgylchedd mwy diogel a bydd y Bwrdd Croeso yn edrych ar ffyrdd o fanteisio ar hyn mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol.

**6. Yr angen am hyblygrwydd**

Bydd hyblygrwydd yn hollbwysig yn y misoedd i ddod. Bydd angen ailddyrannu adnoddau, ailwerthuso gweithgareddau, canslo neu ohirio ymgyrchoedd ac addasu negeseuon. Bydd y Bwrdd Croeso yn monitro'r sefyllfa yn ofalus. Wrth gynllunio ymgyrchoedd bydd y Bwrdd Croeso, cyn belled ag sy'n bosibl, yn caniatáu ar gyfer yr angen am newidiadau munud olaf. Gall fod angen mwy o hyblygrwydd yn nhermau cario-drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7. Dynesiad Marchnata'r Deyrnas Gyfunol 2002**

Mae ymchwil ddiweddar gan yr ETC a thystiolaeth anecdotaidd arall a dderbyniwyd gan y diwydiant yng Nghymru yn awgrymu bydd llawer o drigolion y Deyrnas Gyfunol yn llai awyddus i gymryd gwyliau tramor yn 2000. Bydd y Bwrdd Croeso yn lansio ymgyrch newydd sylweddol a fydd yn dechrau yn Ionawr 2002. Dan thema ymgyrch "Cymru, y Wlad Fawr/Wales, The Big Country". Bydd yr hyrwyddiad yn lleoli Cymru fel y gyrchfan ddelfrydol ar gyfer prif wyliau a gwyliau byr. Defnyddir cronfeydd Ffordd i Ffyniant ac Amcan 1 i lansio hyrwyddiad prif dymor ar deledu yn rhanbarthau Granada, Central, HTV West a Meridian. Bydd hefyd sylw cryf ar deledu Sky ledled Prydain. Oherwydd cyfyngiadau cyllideb, mewn blynyddoedd diweddar ni fedrai Bwrdd Croeso Cymru fod ar deledu yn Ionawr/Chwefror. Dechreuai ein hymgyrch teledu yn y gwanwyn i ysgogi gwyliau byr. Bydd gweithgaredd mis Ionawr yn cystadlu'n uniongyrchol

gyda chyrchfannau tramor ar gyfer prif wyliau. Byddwn wedyn yn dychwelyd i'r teledu, mae'n debyg yn Ebrill a Mai 2002.

**8. Dynesiad Marchnata Rhyngwladol 2002**

Cydnabuwyd ers amser maith fod cyfran Cymru o'r farchnad ymwelwyr rhyngwladol i Brydain yn gymharol isel ac nad yw Cymru wedi mwynhau lefelau uchel o adnabyddiaeth ymysg darpar deithwyr rhyngwladol. Er mwyn unioni'r sefyllfa, mae Bwrdd Croeso wedi derbyn adnoddau ychwanegol. Yn y flwyddyn ariannol bresennol mae cyfanswm adnoddau marchnata sydd ar gael i'r Bwrdd Croeso tua £16m o gymharu â thua £6m ym mlwyddyn ariannol 2000/2001.

Yn ôl yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, yn 2000 derbyniodd Cymru 980,000 o ymwelwyr rhyngwladol a wariodd £269m yn ystod eu harhosiad. Mae hyn yn gyfran o 3.9% o'r ymwelwyr rhyngwladol i Brydain a chyfran 2.1% o'r gwariant.

Mae potensial clir ar gyfer twf. Yn wir cred y Bwrdd Croeso, er dibyniaeth Cymru ar y farchnad ddomestig, na fydd Cymru yn cyflawni ei photensial fel cyrchfan dwristiaeth heb ddenu niferoedd sylweddol uwch o ymwelwyr rhyngwladol gwariant uchel dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd twf yn nifer yr ymwelwyr tramor yn gymorth i greu gwelliannau i is-strwythur twristiaeth Cymru, hybu ansawdd cynnyrch gwella lefelau gwasanaeth ac ysgogi cynnyrch a busnesau twristiaeth ffres a blaengar. Byddant hefyd yn helpu gwasgariad tymhorol twristiaeth.

Mae ychydig yn eironig fod yr amodau marchnad yn ymddangos mor anffafriol ar adeg pan fo gennym fwy o adnoddau ar gael ar gyfer marchnata. Credwn fod pedair ffactor allweddol sy'n gostwng galw yn y tymor byr: y bunt uchel, y dirywiad yn yr hinsawdd economaidd mewn marchnadoedd ffynhonnell allweddol, effeithiau gweddilliol clwy traed a'r genau a'r ffactorau yn deillio o 11 Medi.

Fel canlyniad i'r digwyddiadau terfysgol, bydd nerfusrwydd ac ansicrwydd yn dominyddu'r amgylchedd farchnata yn y tymor byr. Y ffactorau allweddol ar waith yw:

? Ofn byd-eang o hedfan

? Cred bod cymryd gwyliau "ddim yn iawn", er fod y teimlad hwn yn lleihau'n raddol.

? Pryderon am ohiriadau/arosiadau hir mewn meysydd awyr

? Gostyngiad o 20% mewn darpariaeth awyrennau - tymor byr

? Pryderon am waethygiad milwrol yn y Dwyrain Canol.

? Ofnau byd-eang cynyddol o ddirwasgiad

? Ofn fod cefnogaeth i'r Unol Daleithiau yn gwneud Prydain yn darged a Llundain yn ardal risg

? Ansicrwydd cyffredinol oherwydd fod y wlad "mewn rhyfel", pa bynnag mor bell y gall ymddangos.

? Consýrn am ddiffyg agosatrwydd h.y. dymuniad i fod yn agos gartref mewn adegau o greisis/ argyfwng.

Medrai cymhwyso rhagolygon y BT i Gymru olygu colled o rhwng £50-52m yn 2001 a rhwng £54-74m yn 2002.

Mae'r sefyllfa tymor hwy hyd yn oed yn fwy anodd ei rhagweld. Ar y naill law mae posibilrwydd y bydd nerfusrwydd parhaol parthed teithio rhyngwladol ynghyd â chostau uwch posibl yn deillio o ostwng darpariaeth a diogeledd ychwanegol yn parhau i lesteirio galw. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae'r diwydiant twristiaeth wedi arddangos ei wytnwch a'i allu i adennill ei sefyllfa.

Bydd atgofion am 11 Medi yn pylu a bydd darpar deithwyr yn cynefino gyda'r realaeth newydd. Bydd y dymuniad sylfaenol i weld lleoedd newydd a gwahanol yn dal i fod yno. Wrth gwrs byddai erchyllterau proffil uchel pellach, fodd bynnag, yn arwain at ansicrwydd newydd.

**9. Yr Her Newydd**

Cred y Bwrdd Croeso fod yn rhaid i'r dasg ddechrau'n awr os yw Cymru i ddod yn fwy cystadleuol a deniadol o ymwelwyr rhyngwladol yn y tymor canol. Rhaid i sefydlu Cymru fel cyrchfan ryngwladol safon byd yn ei hunan fod yn weledigaeth i ni. Er y gall Cymru fanteisio o gysylltiad gyda Phrydain ac yn neilltuol ei rôl fel both fyd-eang, mae'n rhaid i Gymru greu ei hunaniaeth, proffil ac is-strwythur ei hunan. Ni ddylid colli'r cyfle unigryw a grëwyd gan gyllid Amcan 1. Fodd bynnag, teimlwn y gall byrddau twristiaeth eraill fod yn gostwng eu gwariant yn y tymor byr, gan felly wella'n gallu i gynyddu y sylw a gawn. Heb gyllid ychwanegol, ychydig o amheuaeth sydd na fyddai'n rhaid i'r Bwrdd Croeso gynnal cyllideb Marchnata'r DG - mae digwyddiadau 11 Medi yn debygol o annog pobl i gymryd eu gwyliau o fewn y Deyrnas Gyfunol yn y tymor byr o leiaf. Fodd bynnag, drwy'r adnoddau ychwanegol a gymeradwywyd eisoes, byddwn yn medru hyrwyddo ein hymgyrch DG yn sylweddol heb arallgyfeirio cyllid o dramor i raddau helaeth.

Yr her ar gyfer 2002 fydd cynyddu'r cyfleoedd ym marchnad y Deyrnas Gyfunol tra'n buddsoddi ar gyfer llwyddiant y dyfodol mewn marchnadoedd rhyngwladol targed.

Mewn termau cyffredinol mae Cynllun Gweithredu Strategol Marchnata y Bwrdd Croeso yn cydnabod mai dim ond os dechreuwn sicrhau cynnydd mewn 10 maes allweddol y ceir llwyddiant yn y dyfodol:

1. Cyflwyno delwedd brand gadarnhaol i Gymru
2. Dynodi'n llwyddiannus y segmentau marchnad targed fydd yn cyflawni ein hamcanion a'n targedau.
3. Gwneud cynnyrch twristiaeth Cymru yn haws eu harchebu
4. Manteisio ar dechnoleg newydd
5. Datblygu partneriaethau marchnata effeithiol y tu fewn a'r tu allan i Gymru
6. Cynyddu gwariant cyfartalog ymwelwyr i Gymru.
7. Ymestyn y tymor twristiaeth yng Nghymru
8. Meithrin gwelliannau yng ngallu cystadleuol, proffesiynoldeb a hyder ein busnesau twristiaeth.
9. Datblygu cysylltiadau effeithlon gyda chwsmeriaid.
10. Hyrwyddo gweledigaeth gytun o fewn ein diwydiant twristiaeth.

Bydd ein hymdrechion marchnata rhyngwladol yn canolbwyntio ar wneud cynnydd ym mhob un o'r meysydd allweddol hyn. Byddwn, wrth gwrs, yn addasu negeseuon ac ymgyrchoedd i roi ystyriaeth lawn i'r amgylchiadau cyfredol. Bydd y dilynol yn elfennau allweddol yn ein dynesiad:

1. <u>Gwelliannau Sylweddol mewn Ymgyrchoedd Ymateb Brand</u> – Rydym yn y broses o ddatblygu ymgyrchoedd newydd ym marchnadoedd rhyngwladol sylfaenol sef yr Unol Daleithiau, yr Almaen a'r Iseldiroedd. Bydd yr ymgyrchoedd hyn yn rhedeg wrth ochr gweithgaredd arfaethedig y BTA. Byddant yn dechrau codi proffil Cymru ymysg cynulleidfaoedd targed ac ysgogi galw am wybodaeth bellach. Bydd yr ymgyrchoedd yn esblygu o leoli Cymru yn gyffredinol fel "lle i'ch ysbrydoli" ac yn adlewyrchu’r gwerthoedd craidd ac asedau fydd hyd yn oed yn bwysicach ym myd ansicr heddiw - cyfeillgarwch a chroeso ein pobl, nerth ein cymunedau, yr amgylchedd diogel, presenoldeb gwerthoedd traddodiadol, ein diwylliant a threftadaeth unigryw a natur adferol ac ysbrydoledig ein tirweddau. Bydd yr ymgyrchoedd hyn yn adeiladu ymwybyddiaeth a gwella ein sefyllfa gystadleuol tra'n cynorthwyo i ysgogi galw yn y tymor byr.

2. <u>Pecynnu a Hwylustod Archebu</u> – Byddwn yn creu tîm datblygu busnes gyda rôl o annog gweithredwyr taith ym mhob marchnad allweddol i hyrwyddo Cymru. Bydd llwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar ein gallu i annog y fasnach yng Nghymru i weithio gyda gweithredwyr tramor drwy gynnig comisiynau, dyraniadau a thrwy addasu eu cynnyrch ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol. Bydd hefyd angen creu cynnyrch newydd a

blaengar i ateb anghenion ymwelwyr rhyngwladol. Byddwn yn dechrau ar gyfres o deithiau masnach rhyngwladol gyda chymhorthdal hael i gyflwyno ein busnesau i'r farchnad agored. Bydd y system DMS newydd hefyd yn hwb sylweddol i allu Cymru i'w gwneud yn fwy hwylus i archebu ein cynnyrch twristiaeth nad yw'n draddodiadol wedi medru cyrraedd marchnadoedd tramor.

3. Sylw ar y Cyfryngau – byddwn yn parhau gyda'n rhaglen o gynhyrchu sylw i Gymru dramor mewn cyfryngau teithio a dull byw. Gweithiwn gydag ymgynghorwyr ar y cyfryngau yn ein holl farchnadoedd sylfaenol a hwyluso ymweliadau'r cyfryngau i Gymru.

4. Hyrwyddiadau ac Arddangosfeydd Defnyddwyr - byddwn yn ehangu ein rhaglen arddangosfeydd rhyngwladol drwy'r cynllun partneriaeth Tramor gydag awdurdodau lleol. Bydd yn cynnwys 15 digwyddiad yn 2002 a chefnogir 4 sioe gan Hyrwyddiadau Bwyd o Gymru. Byddwn yn dynodi cyfleoedd hyrwyddo eraill gyda phartneriaid twristiaeth ac eraill.

5. Cynlluniau Segment Penodol – Rydym yn datblygu ymgyrchoedd newydd a gynlluniwyd i dargedu segmentau sydd eisoes yn ffafrio Prydain/ Cymru. Mewn rhai achosion gall y segmentau hyn eisoes fod wedi penderfynu ymweld â Phrydain ac mewn rhai achosion byddant eisoes ym Mhrydain. Mae segmentau o'r fath fel arfer yn hawdd eu dynodi a chyfathrebu â hwy. Bydd ein cynllun teithio car yn targedu ymwelwyr annibynnol gyda cheir yn arbennig o Ewrop: nid yw'r ymwelwyr hyn ar deithiau wedi’u blaengynllunio/archebu a medrir dylanwadu arnynt i ddod i Gymru. Byddwn hefyd yn targedu y segment ieuenctid/pecyn-cefn sydd ar arosiadau hir yng Nghymru neu'n astudio neu weithio yma dros dro. Bu gwelliannau sylweddol yn y cynnyrch a gynigir ym Mhrydain ar gyfer y segment hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Byddwn hefyd yn targedu'r gymuned Cymry alltud i adeiladu ar lwyddiant cynllun Hiraeth 2000.

Yn ychwanegol at y cyfan uchod, byddwn yn ehangu neu lansio cynlluniau newydd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau, golff, gweithgareddau a busnes twristiaeth. Mae cwmpas da ar gyfer twf yn yr holl feysydd hyn ond mae'r gost o ymwela ar a mwynhau'r cyfleoedd hyn hefyd yn sylweddol.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi yma na fydd gweithgaredd hyrwyddo ar ei ben ei hun yn ddigon i sefydlu Cymru fel cyrchfan ryngwladol. Mae rhai elfennau is-strwythur allweddol sydd angen i ni eu meithrin neu eu creu megis:

- Maes Awyr Porth Rhyngwladol
- Biwrô Confensiwn
- Cwmnïau trin arbenigol
- Naws o le (cyflawni'r addewid o fod mewn gwlad wahanol)

**10. Monitro Llwyddiant**

Oherwydd yr ansicrwydd presennol sy'n ei gwneud yn anodd amcangyfrif niferoedd a ffigurau yn y tymor byr, teimlwn fod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar fuddsoddiad dychweliad ar fuddsoddiad i arddangos fod ein gwaith eisoes yn cael effaith ac yn cynhyrchu ymweliadau na fyddai wedi digwydd fel arall hyd yn oed mewn marchnad sy'n sefyll yn ei hunan neu'n dirywio. Byddwn yn anelu am ddychweliad ar fuddsoddiad cyfartalog o tua 10:1 ar gyfer pob gweithgaredd y medrir ei fonitro wedi'i anelu at farchnadoedd tramor. Byddwn yn sefydlu astudiaethau meincnodi a chanfyddiad i fesur gwelliannau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gymru. Byddwn yn cytuno ar amrediad llawn o dargedau perfformiad gyda swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol.

**11. Casgliad**

Mae'r hinsawdd bresennol ar gyfer cynhyrchu ymweliadau rhyngwladol i Gymru yn cynnig her sylweddol iawn, ond mae cyfle enfawr yn dal i fod i Gymru. Dan yr amgylchiadau credwn y byddai'n annoeth yn y tymor byr i fynd ymlaen gyda'n cais am £3m pellach. Fodd bynnag, credwn y dylem ddechrau yn awr gyda'r dasg enfawr o wella ein gallu cystadleuol rhyngwladol. Rydym eisiau i Gymru fod mewn sefyllfa gryfach i ennill busnes pan fydd amodau'r farchnad yn gwella. Bydd hyn yn galw am chwistrelliad pellach o adnoddau bryd hynny. Byddwn yn cadw golwg agos ar y sefyllfa a bydd hyblygrwydd yn hanfodol. Byddwn yn adolygu yn barhaol y dyraniadau adnoddau a'n hasesiad o'r lefelau adnodd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion arfaethedig.